Estyn
Rhagoriaeth i bawb - Excellence for all
Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

# Ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru

## Adroddiad ar ansawdd

## Awdurdod Addysg Lleol Ynys Môn

## Mynediad a threfniadaeth ysgolion

**Mehefin 2007**

**by**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

**Diben Estyn yw arolygu ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Mae Estyn yn gyfrifol am arolygu:**

- ysgolion a safleoedd meithrin a gynhelir gan, neu sy'n cael arian gan awdurdodau addysg lleol (AALlau);
- ysgolion cynradd;
- ysgolion uwchradd;
- ysgolion arbennig;
- unedau cyfeirio disgyblion;
- ysgolion annibynnol;
- addysg bellach;
- dysgu oedolion yn y gymuned;
- gwasanaethau cymorth ieuenctid;
- hyfforddiant gwaith ieuenctid a chymunedol;
- AALlau;
- addysg a hyfforddiant athrawon;
- dysgu yn y gwaith;
- cwmnïau gyrfaoedd;
- dysgu troseddwyr; ac
- elfennau addysg, arweiniad a hyfforddiant rhaglenni hyfforddi a ariennir gan Yr Adran Gwaith a Phensiynau.

Mae Estyn hefyd:

- yn rhoi cyngor ar ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac eraill; ac
- yn cyhoeddi achosion o arfer dda yn seiliedig ar dystiolaeth arolygu.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gsi.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg)**

**© Hawlfraint y Goron 2007: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

| **Cynnwys** | **Tudalen** |
|---|---|


| | |
|---|---|
| **Cyd-destun** | **1** |
| **Cefndir yr awdurdod** | **3** |
| **Crynodeb** | **5** |
| **Argymhellion** | **7** |
| **Canfyddiadau** | **8** |
| Pa mor dda yw perfformiad yr AALI? | 8 |
| Arweinyddiaeth | 8 |
| Cynllunio strategol | 9 |
| Gwaith partneriaeth | 9 |
| Rheoli perfformiad | 10 |
| Darparu lleoedd ysgol | 11 |
| Rheoli asedau | 12 |
| Derbyniadau i ysgolion | 13 |
| Cludiant o’r cartref i’r ysgol | 14 |
| A fydd perfformiad yr awdurdod lleol yn gwella? | 15 |
| **Ymateb yr awdurdod i ganfyddiadau’r adroddiad** | **17** |
| **Atodiad 1** Y proffil graddau | |
| **Atodiad 2** Y tîm arolygu | |

## Cyd-destun

### Yr Arolygiad

1 Ym mis Ebrill 2006, dechreuodd cylch chwe blynedd (rhwng mis Ebrill 2006 a mis Mawrth 2012) o arolygiadau o wasanaethau Awdurdodau Addysg Lleol, o dan adran 38 Deddf Addysg 1997 a Deddf Plant 2004. Mae'r fframwaith arolygu ar gyfer y cylch hwn ar wefan Estyn www.estyn.co.uk.

2 Cynhaliwyd yr arolygiad hwn rhwng 11 Mehefin 2007 a 15 Mehefin 2007. Cytunwyd mai mynediad a threfniadaeth ysgolion fyddai ffocws yr arolygiad hwn. Cyn yr arolygiad, lluniodd AALl Ynys Môn adroddiad hunanarfarnu fel rhan o'i adolygiad ei hun o'i waith ar fynediad a threfniadaeth ysgolion.

### Barnau allweddol

3 Mae'r tîm arolygu yn llunio dwy farn allweddol am bob gwasanaeth, sef:

**(1) Pa mor dda yw perfformiad yr awdurdod lleol?**

4 Rhoddir gradd i berfformiad yr awdurdod lleol wrth gyflawni ei gyfrifoldebau yn ôl graddfa pedwar pwynt fel a ganlyn:

Gradd 1 da gyda nodweddion rhagorol (***)

Gradd 2 nodweddion da a dim diffygion pwysig (**)

Gradd 3 nodweddion da yn gorbwyso diffygion (*)

Gradd 4 diffygion mewn meysydd pwysig

**(2) A fydd perfformiad yr awdurdod lleol yn gwella?**

5 Rhoddir gradd i'r rhagolygon ar gyfer gwella yn ôl graddfa pedwar pwynt fel a ganlyn:

Gradd 1 mae'r rhagolygon ar gyfer gwella yn dda, gyda gwelliannau sylweddol eisoes ar waith

Gradd 2 mae'r rhagolygon ar gyfer gwella yn dda, heb unrhyw rwystrau pwysig

Gradd 3 rhai rhagolygon da, ond rhwystrau mewn meysydd pwysig

Gradd 4 llawer o rwystrau pwysig at wella

**Cwestiynau allweddol**

6 Er mwyn llunio'r ddwy farn allweddol, mae arolygwyr yn arfarnu perfformiad yr awdurdod mewn perthynas â phob un o'r pedwar cwestiwn allweddol:

- Pa mor effeithiol yw cynllunio strategol yr awdurdod?
- Pa mor effeithiol yw gwasanaethau'r awdurdod?
- Pa mor effeithiol yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?
- Pa mor dda y mae arweinwyr a rheolwyr yn monitro, yn arfarnu ac yn gwella gwasanaethau?

7 Amlinellir y pedwar cwestiwn allweddol hwn a'r arfarniadau yn yr adran canfyddiadau. Cânt eu cofnodi fel graddau, gan ddefnyddio'r graddfeydd pedwar pwynt a amlinellir yn (1) a (2) uchod. Mae pob un o'r graddau wedi'u cynnwys yn y Proffil Graddio.

## Cefndir yr awdurdod

8 Cyngor Sir Ynys Môn yw'r awdurdod lleiaf ond un yng Nghymru, gyda chyfanswm poblogaeth o ryw 68,934. Mae tua 4,482 o'r boblogaeth rhwng 11 a 18 oed. Gall mwyafrif y boblogaeth (60.1%) siarad Cymraeg, fel iaith gyntaf yn y rhan fwyaf o achosion. Mae canran uchel (72%) o siaradwyr Cymraeg rhwng tair a 24 oed. Mae'r boblogaeth yn cynnwys pobl groenwyn yn bennaf, gyda chynrychiolaeth isel iawn o drigolion o gymunedau ethnig. Mae'r awdurdod yn gweithredu polisi dwyieithog, gan roi statws cyfartal i'r Gymraeg a'r Saesneg wrth ddarparu gwasanaethau i'r cyhoedd, a chynhelir llawer o fusnes mewnol trwy gyfrwng yr iaith Gymraeg.

9 Mae Mynegai Cymru o Amddifadedd Lluosog yn dangos bod chwech o wardiau'r ynys ymhlith y 100 uchaf o ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru. 4.9% yw cyfradd y lefel diweithdra yn y boblogaeth. Mae hyn ychydig islaw cyfartaledd Cymru, sef 5.1%. Mae lefelau diweithdra ymhlith pobl ifanc rhwng 18-25 oed, sef 26%, yn uchel iawn. Mae bron i 16% o ddisgyblion y sir yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim, sef cyfran debyg i gyfartaledd Cymru.

10 Mae'r awdurdod yn rhestru'r boblogaeth yn gostwng, y cynnydd yn nifer y trigolion dros 75 oed a nifer sylweddol y bobl ifanc sy'n gadael yr ynys i astudio neu weithio yn ffactorau arwyddocaol yn ei gynllunio.

11 Mae'r newidiadau demograffig wedi cael effaith sylweddol ar y boblogaeth ysgol, a disgwylir gostyngiad arall, sylweddol yn y boblogaeth hon yn ystod y 10 mlynedd nesaf.

12 Mae pum ysgol uwchradd yn yr awdurdod, ac mae pedair o'r rhain yn cynnwys lefel uchel o ddarpariaeth ddwyieithog. Dynodwyd un ysgol uwchradd, Ysgol Uwchradd Bodedern, yn ddarparwr cyfrwng Cymraeg ar gyfer y dalgylch estynedig sy'n cynnwys ardal fwy Seisnigaidd Caergybi. Mae 52 o ysgolion cynradd yn gwasanaethu poblogaeth ysgol o 5,136. Mae un o'r ysgolion hyn yn cael cymorth gwirfoddol ac yn darparu addysg ar gyfer disgyblion Pabyddol, mae tair ysgol arall yn ysgolion yr Eglwys yng Nghymru a reolir yn wirfoddol ac mae gan un ysgol statws sylfaen. Mae tair uned addysgol arbennig, a dwy uned asesu cyn-ysgol, ysgol arbennig sy'n darparu ar gyfer disgyblion 3-19 oed a dwy ganolfan ar gyfer addysgu Cymraeg i ddisgyblion sy'n symud i'r awdurdod. Mae gan yr awdurdod gytundeb lefel gwasanaeth gyda Chyngor Gwynedd i ddarparu addysg ar gyfer rhai disgyblion sydd ag anawsterau emosiynol ac ymddygiad mewn ysgol arbennig yng Ngwynedd, yr awdurdod lleol cyfagos.

13 Mae Cyngor Sir Ynys Môn wedi'i drefnu yn bedair cyfarwyddiaeth, ac un ohonynt yw'r Gyfarwyddiaeth Addysg a Hamdden. Canolbwyntiodd yr arolygiad ar yr meysydd a adolygwyd gan y Gyfarwyddiaeth Addysg a Hamdden, sef agweddau ar fynediad a threfniadaeth ysgolion. Canolbwyntiodd yr arolygiad o wasanaethau mynediad ar ddarpariaeth lleoedd ysgol, rheoli asedau, cludiant ysgol a derbyniadau.

14 Mae'r tabl canlynol yn cymharu perfformiad disgyblion yn ysgolion Ynys Môn mewn asesiadau athrawon y Cwricwlwm Cenedlaethol gyda pherfformiad disgyblion ledled Cymru:

**Canran y disgyblion sy'n cyrraedd y Dangosydd Pynciau Craidd (DPC) ym mhob cyfnod allweddol yn Ynys Môn ac yng Nghymru yn 2006**

| | Cyfnod allweddol 1 | Cyfnod allweddol 2 | Cyfnod allweddol 3 | Cyfnod allweddol 4 |
|---|---|---|---|---|
| **Ynys Môn** | **84.6%** | **73.6%** | **57.8%** | **40.3%** |
| Cymru | 80.6% | 74.2% | 58.2% | 40% |

**Cyllid**

15 Roedd Asesiad Gwariant Safonol (AGS)[1] Llywodraeth Cynulliad Cymru fesul pen o'r boblogaeth ar gyfer Cyngor Sir Ynys Môn ar gyfer 2006-2007 yn llawer uwch na'r cyfartaledd ar gyfer awdurdodau lleol yng Nghymru. O fewn hyn, roedd cyfanswm y gydran addysg (Asesiad yn Seiliedig ar Ddangosydd (ASDd) [2] addysg) ychydig dros £46 miliwn. Mae hyn yn cynrychioli tua £4,660 ar gyfer pob disgybl yn ysgolion Ynys Môn. Y lefel hon o ASDd yw'r uchaf o'r holl awdurdodau yng Nghymru, sy'n adlewyrchu'r ffaith fod cyfran uchel o boblogaeth y sir yn byw mewn pentrefi bach, a bod gwasanaethau addysg o'r herwydd yn fwy costus i'w cyflwyno na mewn ardaloedd y mae eu poblogaeth yn fwy dwys. Mae hefyd yn adlewyrchu'r ffaith fod lefelau amddifadedd, fel y mesurwyd gan gyfran y disgyblion sydd â hawl i brydau ysgol am ddim, yn agos at y cyfartaledd ar gyfer Cymru ac yn uwch na mewn awdurdodau sy'n rhai gwledig yn bennaf.

16 Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae'r awdurdod wedi pennu cyfanswm ei gyllideb refeniw ar gyfer rheoli a chyflwyno ei holl wasanaethau ar lefel ychydig islaw'r ASDd. Yn unol â'r polisi hwn, pennwyd y gyllideb addysg net ar gyfer 2006-2007 ac ar gyfer blynyddoedd blaenorol ar lefel islaw'r ASDd addysg; ar gyfer 2006-2007, pennwyd y gyllideb addysg ar 96.4% o ASDd addysg. Serch hynny, galluogodd y lefel hon o gyllid gan yr awdurdod gyllideb addysg net fesul disgybl ar gyfer 2006-2007 o £4,277, sef yr uchaf ond un yng Nghymru. Gan gynnwys grantiau, roedd gwariant ar ysgolion[3], p'un a gafodd ei ddirprwyo neu ei reoli'n ganolog, yn gwneud cyfanswm o £4,349 fesul disgybl, sef yr uchaf ond un o'r holl awdurdodau lleol yng Nghymru.

17 Gwariodd yr awdurdod tua £2.8 miliwn o gyfalaf yn 2005-2006 er mwyn gwella adeiladau ysgol. Mae'r cyllidebau cyfalaf ar gyfer 2006-2007 a 2007-2008 wedi cynyddu'n sylweddol i £5.1 miliwn a £6.2 miliwn yn y drefn honno, sy'n adlewyrchu dechrau prosiect mawr i adleoli ysgolion o ganol Llangefni, yn ogystal â nifer o brosiectau llai.

[1] AGS yw'r ffordd y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn dosbarthu Grant Cymorth Refeniw i awdurdodau lleol.
[2] ASDd Addysg yw'r rhan honno o AGS sy'n ymwneud â chyflwyno gwasanaethau addysg. Nid yw ASDd Addysg wedi'i fwriadu fel targed gwariant a gall awdurdodau wario ar lefelau uwchlaw neu islaw'r ASDd, yn unol â'u blaenoriaethau.
[3] Rheoliadau Y Gyllideb Ysgolion, fel y'i diffinnir yn Y Gyllideb AALl, Cyllideb Ysgolion a Chyllideb Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2003

## Crynodeb

18 Mae'r siart sgorio yn dangos gwybodaeth mewn dau ddimensiwn, un ar gyfer y naill a'r llall o'r ddwy farn arolygu allweddol. Cynrychiolir y barnau arolygu gan safle'r cylch du mewn perthynas â'r graddau ar yr ochr chwith ac ar waelod y siart.

**Siart sgorio**

**AALl Ynys Môn: Mynediad a threfniadaeth ysgolion**

**Pa mor dda yw perfformiad yr awdurdod lleol?**

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Gradd 1 | | | | |
| Gradd 2 | | | | |
| Gradd 3 | | | ● | |
| Gradd 4 | | | | |
| | Gradd 4 | Gradd 3<br>* | Gradd 2<br>** | Gradd 1<br>*** |

**A fydd perfformiad yr awdurdod lleol yn gwella?**

**Pa mor dda yw perfformiad yr AALl?**

**Gradd 3: Nodweddion da yn gorbwyso diffygion**

19 Dyma nodweddion da perfformiad yr awdurdod lleol:

- ✓ mae ymrwymiad clir i ad-drefnu, a adlewyrchir mewn ymatebion diweddar i ymgynghoriad yr awdurdod lleol ar ysgolion cynradd;
- ✓ yn gyffredinol, mae adeiladau ysgol mewn cyflwr da;
- ✓ mae darpariaeth yr awdurdod ar gyfer cludiant o'r cartref i'r ysgol o ansawdd da ar y cyfan;
- ✓ mae gan yr awdurdod bolisi da ar drefniadau derbyn ar gyfer ysgolion;

- ✓ mae'r awdurdod yn gweithredu ei bolisi dwyieithog yn effeithiol mewn perthynas â darparu lleoedd ysgol;
- ✓ gwna'r awdurdod drefniadau da i ddisgyblion ag anableddau fynychu ysgolion lleol; ac
- ✓ mae gan yr awdurdod system effeithlon ac effeithiol ar gyfer rhagweld cyfanswm y disgyblion a fydd yn mynychu ei ysgolion bob blwyddyn.

20 Mae angen sylw ar y meysydd canlynol:

- × mae gan yr awdurdod ormod o leoedd dros ben a dim ond ar gyfer ad-drefnu ysgolion y mae ganddo strategaeth fanwl ar hyn o bryd i ymdrin â'r rhain;
- × mae'r awdurdod eto i gwblhau ei gynllun rheoli asedau corfforaethol; ac
- × mae trefniadau rheoli perfformiad cyfredol yr awdurdod yn aneffeithiol, ac o ganlyniad, nid yw aelodau etholedig yn monitro ac yn arfarnu'r gwasanaeth na chanlyniadau disgyblion yn dda.

**A fydd perfformiad yr awdurdod lleol yn gwella?**

| **Gradd 2: Mae'r rhagolygon ar gyfer gwella yn dda heb unrhyw rwystrau pwysig** |
|---|

21 Dyma'r ffactorau sy'n debygol o gefnogi gwelliant:

- ✓ mae'r arweinyddiaeth wleidyddol yn gadarn ac yn bendant ac mae ganddi ddealltwriaeth dda o'r materion strategol sy'n wynebu addysg fel ad-drefnu ysgolion. Mae arweinydd yr awdurdod ac uwch reolwyr yn cefnogi'r strategaeth yn agored ar gyfer ad-drefnu ac mae eu harweinyddiaeth strategol yn gosod cyfeiriad clir;
- ✓ mae cyfarfodydd bob deufis rhwng yr aelodau etholedig uchaf, swyddogion a chynrychiolwyr penaethiaid yn darparu fforwm da i drafod materion addysgol yn drylwyr ac yn rhagweithiol;
- ✓ mae'r rheolwr gyfarwyddwr newydd yn gwneud gwahaniaeth sylweddol i'r ffordd y caiff yr awdurdod ei lywodraethu fel cynyddu atebolrwydd gwasanaethau i berfformiad ar draws yr awdurdod;
- ✓ roedd 85% o atebion i ddogfen ymgynghori'r awdurdod ar ad-drefnu ysgolion cynradd yn cytuno y dylid newid y ffordd y caiff ysgolion eu trefnu. Pleidleisiodd yr ysgol i gefnogi'r farn hon ac mae cyfres o gynigion i fynd i'r afael â phroblem ysgolion bach a lleoedd heb eu llenwi wrthi'n cael ei llunio; a
- ✓ gwnaed gwelliannau sylweddol i'r gwasanaeth mynediad ers yr arolygiad diwethaf yn 2005.

22 Mae'r ffactorau sy'n debygol o rwystro gwelliant wedi'u hamlinellu isod:

- × mae'r awdurdod wedi cymryd amser hir yn mynd i'r afael ag ad-drefnu darpariaeth ysgolion ac nid oes ganddo hanes da yn y maes hwn.

## Argymhellion

23 Er mwyn sicrhau'r gwelliannau sydd eu hangen, dylai'r awdurdod lleol:

A1 gyflwyno'r strategaeth gynradd ar gyfer ad-drefnu ysgolion a llunio a chyflwyno strategaeth ad-drefnu ysgolion uwchradd fwy cynhwysfawr sy'n hwyluso'r broses o gyflwyno addysg ansawdd uchel i bob disgybl yn effeithlon. Dylai'r strategaeth gynnwys pwyslais priodol ar:

- greu ysgolion sy'n hyfyw yn addysgol ac yn ariannol mewn adeiladau sy'n addas ar gyfer addysg fodern; a
- lleihau lleoedd dros ben.

A2 datblygu fframwaith cyson o gynlluniau busnes ag adnoddau sy'n mynd i'r afael â risgiau a blaenoriaethau gwella, ac yn cynnwys, ble bynnag y bo'n bosibl, dargedau mesuradwy wedi'u diffinio'n glir;

A3 sicrhau bod perfformiad sydd ar y gweill gyda blaenoriaethau gwella yn cael ei fonitro a'i adrodd i fforwm priodol o aelodau etholedig yn rheolaidd; a

A4 chwblhau'r cynlluniau rheoli asedau corfforaethol a gwasanaeth.

## Canfyddiadau

24 Dangosir y ddwy farn ar gyfer y maes a arolygwyd yn y tabl isod.

| | |
|---|---|
| Pa mor dda yw perfformiad yr AALl? | Gradd 3 |
| Beth yw'r rhagolygon ar gyfer gwella? | Gradd 2 |

**Pa mor dda yw perfformiad yr AALl?**

**Gradd 3: Nodweddion da yn gorbwyso diffygion**

**Arweinyddiaeth**

25 Mae arweinydd y cyngor yn darparu arweinyddiaeth a chyfeiriad cryf ar gyfer gweithrediaeth a grŵp rheoli'r awdurdod. Mae ganddo wybodaeth dda am y materion sy'n gysylltiedig â mynediad a threfniadaeth ysgolion. Mae'r aelod arwain ar gyfer addysg a gwasanaethau plant yn brofiadol ac mae ganddo hefyd ddealltwriaeth drylwyr o addysg yn gyffredinol. Mae'n wybodus am yr heriau sy'n gysylltiedig â lleihau gormod o leoedd ysgol heb eu llenwi. Mae uwch aelodau etholedig wedi bod yn effeithiol wrth sicrhau cytundeb pob aelod nad yw patrwm presennol y drefniadaeth ysgolion bellach yn ddewis. Mae aelodau yn deall bod cost cynnal y lleoedd dros ben hyn, yn enwedig mewn ysgolion bach, yn rhy uchel ac na ellir ei chynnal yn wyneb lefelau cyllid is trwy'r grant cymorth refeniw a blaenoriaethau cystadleuol o fewn yr awdurdod.

26 Mae arweinyddiaeth y rheolwr gyfarwyddwr newydd yn glir a phwrpasol. Mae wrthi'n cyflwyno system newydd gynhwysfawr ar gyfer rheoli perfformiad i'r awdurdod, gan gynnwys model cynllunio busnes corfforaethol gwell. Mae aelodau etholedig hefyd wedi cytuno ar ei gynigion i addasu'r strwythur pwyllgorau er mwyn egluro cyfrifoldebau. Mae wedi cyfathrebu ei weledigaeth tymor hir ar gyfer addysg yn effeithiol gydag ysgolion trwy fynychu eu cynhadledd flynyddol. Dilynodd hyn trwy gyfarfod â chynrychiolwyr penaethiaid yn rheolaidd.

27 Mae'r rheolwr gyfarwyddwr wedi dechrau rhaglen o gyfarfodydd chwarterol gyda phob cyfarwyddiaeth er mwyn adolygu perfformiad pob gwasanaeth, a'i gyfraniad i gyflawni targedau corfforaethol fel gostyngiadau mewn absenoldeb yn sgil salwch. Mae cyfarwyddwyr wedi cael eu gwerthuso ac mae ganddynt dargedau personol, ac mae pob aelod o staff yn y gyfarwyddiaeth hefyd wedi cael eu gwerthuso yn ystod y tri mis diwethaf. Mae rheolwyr yn awr yn canolbwyntio'n well ar berfformiad.

28 Mae'r cyfarwyddwr addysg a dysgu gydol oes ac uwch swyddogion addysg yn darparu gweledigaeth ac arweinyddiaeth effeithiol ar gyfer gweithredu nodau a pholisïau'r awdurdod. Maent yn rhoi cyngor clir a rhesymegol i aelodau, gan helpu i sicrhau bod mynediad yn cael blaenoriaeth yng nghynllunio strategol yr awdurdod. Mae'r ddealltwriaeth well hon ymhlith aelodau yn adlewyrchu'r gwaith sylweddol a wnaed gan swyddogion ers yr arolygiad diwethaf o fynediad a threfniadaeth ysgolion yn 2005.

29 Nid oes gan yr awdurdod ddigon o allu i fynd i'r afael ag ad-drefnu'r holl ysgolion ar yr un pryd. Mae wedi dod i'r penderfyniad cywir y dylai roi blaenoriaeth i fynd i'r afael

ag ad-drefnu ysgolion cynradd. Pan fydd y strategaeth ad-drefnu ysgolion cynradd wedi cael ei rhoi ar waith, bydd wedyn yn mynd i'r afael â'r broblem o ad-drefnu ysgolion uwchradd.

### Cynllunio strategol

30 Mae dogfennau cynllunio yn yr awdurdod yn rhoi ystyriaeth dda i flaenoriaethau cenedlaethol a lleol. Mae'r Cynllun Gwella Corfforaethol ar gyfer 2006-2007 yn nodi canlyniad yr asesiad risg corfforaethol ac yn nodi lefel y risg sy'n wynebu'r Awdurdod heb Gynllun Rheoli Asedau (CRhA). Fodd bynnag, adeg yr arolygiad, nid oedd y CRhA yn gyflawn o hyd.

31 Mae'r materion a nodwyd trwy'r broses asesu risg yn dylanwadu'n briodol ar flaenoriaethau'r adran addysg, fel y'u hamlinellir yn y Cynllun Addysg Sengl (CAS). Mae a wnelo dwy o'r chwe blaenoriaeth allweddol yn y CAS â datblygu ysgolion â ffocws cymunedol, gostyngiad yn y niferoedd ar gofrestri ysgolion a lleoedd dros ben. Mae'r cynllun yn rhoi cyfarwyddyd da i swyddogion ac aelodau etholedig yn eu gwaith wrth roi'r Gwasanaethau Plant a Deddf Plant 2004 ar waith. Mae'r Cynllun Addysg Sengl yn ffurfio sylfaen gadarn ar gyfer datblygu'r Cynllun Plant a Phobl Ifanc ar gyfer 2008. Mae'r CAS yn gyfyngedig o ran ei werth i reolwyr ac aelodau etholedig fel sylfaen ar gyfer monitro perfformiad pob un o'r swyddogaethau gwasanaeth allweddol oherwydd nad yw, mewn mannau, yn cynnwys targedau clir a mesuradwy a meini prawf llwyddiant.

32 Mae gan yr awdurdod brosesau sefydledig a chynhwysfawr ar gyfer ymgynghori a chydweithio ag ysgolion. Mae wedi gwneud defnydd da o'r grwpiau ymgynghorol presennol trwy gydol yr adolygiad o ad-drefnu ysgolion. Yn ogystal, mae wedi sefydlu fforwm penodol o gynrychiolwyr penaethiaid, aelodau etholedig, llywodraethwyr a swyddogion i edrych yn fanwl ar y materion sy'n gysylltiedig â lleoedd dros ben. Ni ymgynghorwyd â phlant a phobl ifanc ynglŷn â'r materion penodol sy'n gysylltiedig â lleoedd dros ben. Fodd bynnag, mae'r awdurdod wedi derbyn sylwadau a wnaed gan bobl ifanc bod angen gwella toiledau ysgol mewn ysgolion uwchradd a buddsoddi mewn cyfleusterau gwell. Mae hefyd wedi gofyn am farn pobl ifanc wrth adolygu cludiant ysgol a bydd y rhain yn cael eu hystyried wrth roi'r cod ymddygiad a'r broses ail-dendro ar waith y flwyddyn nesaf.

### Gwaith partneriaeth

33 Mae gan yr awdurdod brofiad sylweddol o weithio'n llwyddiannus mewn partneriaeth ag eraill i i ddarparu dysgu ffurfiol ac anffurfiol ar gyfer plant a phobl ifanc. Er enghraifft, mae Cynnal a'r Cyd Bwyllgor ar gyfer AAA (y gwasanaethau gwella ysgolion ac anghenion dysgu ychwanegol), a rennir gyda Gwynedd, yn darparu gwasanaeth gwerthfawr ac effeithiol i ysgolion. Ceir partneriaethau effeithiol a chynigion diddorol i wella ansawdd y ddarpariaeth yn Ynys Môn ymhellach trwy weithio gyda'r awdurdodau eraill yng Ngogledd Cymru.

34 Er ei bod yn rhy gynnar i farnu effaith y cynigion, mae Ynys Môn wedi defnyddio Cynlluniau Braenaru Daearyddol[4] Llywodraeth Cynulliad Cymru a phroses o

[4] Mae Cynlluniau Braenaru Daearyddol wedi adolygu darpariaeth addysg a hyfforddiant 16-19 a ariennir, wedi arfarnu dewisiadau ar gyfer newid ac wedi argymell dewis gwell ar gyfer gweithredu mewn chwe ardal ddethol yng Nghymru. Coridor Menai oedd un o'r ardaloedd hyn.

ymgynghori cyhoeddus i ddod i'r casgliad y bydd trefniant consortiwm ffurfiol rhwng ysgolion, Coleg Menai a phartneriaid eraill yn sicrhau cyfle cyfartal gwell a chydraddoldeb o ran adnoddau mewn addysg ôl-16.

35 Mae'r Rhwydwaith 14-19 yn gwneud cynnydd da wrth ddatblygu ystod o gyfleoedd priodol ar gyfer disgyblion sydd wedi'u gwahardd, neu sydd mewn perygl o gael eu gwahardd o'r ysgol. Fodd bynnag, nid yw disgyblion sydd wedi'u gwahardd yn parhau i gael y 25 awr lawn o addysg y mae ganddynt hawl iddi. Mae hyn yn golygu bod pobl ifanc mewn perygl o adael yr ysgol heb y medrau sylfaenol a'r cymwysterau i'w helpu ar gyfer bod yn oedolyn.

36 Mae gwaith y Bartneriaeth Fframwaith Plant a Phobl Ifanc (PFfPPhI) yn dechrau cael effaith gadarnhaol ar gynllunio a chyflwyno gwasanaeth. Mae nifer o benodiadau a dynodiadau allweddol wedi arwain at y gwelliannau diweddar. Mae'r rhain yn cynnwys:

- rheolwr fframwaith plant a phobl ifanc sydd â chefndir o weithio mewn addysg;
- cydlynydd partneriaeth plant;
- cydlynydd partneriaeth pobl ifanc;
- aelod arwain ar gyfer plant a phobl ifanc;
- cyfarwyddwr arwain ar gyfer plant a phobl ifanc; a
- rheolwr gyfarwyddwr.

37 Un datblygiad pwysig sydd wedi deillio o'r PFfPPhI yw 'Rhwydwaith Cyflwyno Lleol' o weithwyr proffesiynol aml-asiantaethol sy'n gweithio o amgylch pob ysgol uwchradd a'r ysgol arbennig. Mae'r Rhwydwaith, sy'n gweithio gyda'r swyddog uwchradd, wedi helpu lleihau'n sylweddol nifer y gwaharddiadau parhaol a'r gwaharddiadau dros dro. Eleni, mae nifer y gwaharddiadau parhaol wedi gostwng o 17 disgybl i un disgybl. Mae gwaharddiadau dros dro wedi gostwng bron i draean o 336 i 238. Cyflawnwyd hyn trwy roi cymorth, cyngor ac arweiniad i ddisgyblion sydd â phroblemau ymddygiad mewn ysgolion, yn ogystal â thrwy ddatblygu'r ystod o ddewisiadau cwricwlwm amgen sydd ar gael yng nghyfnod allweddol 4. Yn ogystal, mae nifer y plant y gofelir amdanynt (PGA) sydd wedi'u gwahardd dros dro wedi gostwng o 10 yn 2002-2003 i dri yn 2006-2007. Nid oes yr un PGA wedi cael ei wahardd hyd yn hyn yn ystod y flwyddyn academaidd hon.

### Rheoli perfformiad

38 Mae arolygiadau blaenorol wedi amlygu gwendidau mewn rheoli perfformiad yn y gwasanaeth addysg. Mae'r gwendidau hyn i'w gweld ar draws yr awdurdod, fel yr adroddwyd yn Llythyr Blynyddol y Rheolwr Perthynas. Yn y gorffennol, mae'r awdurdod felly wedi bod yn araf yn nodi ac yn mynd i'r afael â phroblemau sylweddol sy'n ymddangos, fel y twf yn nifer y lleoedd dros ben mewn ysgolion, gorwario yn y gyllideb anghenion arbennig a'r niferoedd cynyddol o waharddiadau mewn ysgolion uwchradd.

39 Mae'r awdurdod wedi cytuno i newidiadau yn ei strwythur pwyllgorau er mwyn gwella ansawdd y broses o wneud penderfyniadau. Mae deiliaid portffolio yn wybodus ar y cyfan, ond bu diffyg eglurder yn y gorffennol ynghylch rolau priodol y Weithrediaeth a'r Pwyllgor Trosolwg ac Archwilio sy'n golygu nad yw'r awdurdod ar y cyfan wedi rhoi digon o sylw i fonitro perfformiad. Aethpwyd i'r afael â hyn bellach trwy fabwysiadu strwythur newydd sy'n cryfhau rôl y Pwyllgor Archwilio ac yn ceisio sicrhau bod y broses o wneud penderfyniadau yn cael ei llywio yn llawn gan ddealltwriaeth drylwyr o berfformiad a risg.

40 Mae'r gwasanaeth addysg wedi llunio cynlluniau gweithredu manwl i ymateb i arolygiadau blaenorol. Mae swyddogion yn monitro cynnydd yn eu cyflwyno yn drylwyr ac yn adrodd ar hwn ny rheolaidd i'r Pwyllgor Trosolwg. Mae'r cynllunio hwn wedi cyfrannu'n dda at sicrhau gwelliannau mewn nifer o feysydd pwysig i ymateb i argymhellion arolygu. Fodd bynnag, nid yw'r cynlluniau gweithredu yn darparu set gynhwysfawr o amcanion, targedau a chamau allweddol ag adnoddau clir, sy'n angenrheidiol i sicrhau gwelliant parhaus ac i fynd i'r afael â phob un o'r risgiau sy'n wynebu'r gwasanaeth. Nid yw'r cynlluniau hyn felly yn disodli cynllunio busnes cadarn. Mae diffyg dull corfforaethol ar gyfer cynllunio busnes yn parhau i fod yn wendid, ond mae hyn wrthi'n cael ei ddatrys ar hyn o bryd.

**Darparu lleoedd ysgol**

41 Mae 52 o ysgolion cynradd, pum ysgol uwchradd ac un ysgol arbennig yn Ynys Môn. Yn ogystal â gwasanaethu anghenion y dalgylch naturiol, mae un o'r ysgolion uwchradd hefyd yn ddarparwr cyfrwng Cymraeg dynodedig ar gyfer dalgylch Seisnigaidd mwy estynedig.

42 Mae gan yr AALl system dda ar gyfer rhagweld nifer y disgyblion sy'n dechrau mewn ysgolion bob blwyddyn, a chaiff y data hwn ei adolygu bob blwyddyn. Roedd rhagolwg eleni 100% yn gywir yn y sector cynradd ac roedd anghysondeb o 1% yn unig rhwng y niferoedd a ragwelwyd a'r niferoedd gwirioneddol a ddechreuodd mewn ysgolion uwchradd.

43 Mae gormod o leoedd dros ben yn ysgolion Ynys Môn. Mae swyddogion wedi paratoi data manwl i ddangos graddau'r broblem sy'n wynebu'r cyngor.

| | Cyfanswm y lleoedd sydd heb eu llenwi yn Ynys Môn | % y lleoedd heb eu llenwi yn Ynys Môn | % cyfartaledd Cymru | Rhagolwg ar gyfer 2010 yn Ynys Môn |
|---|---|---|---|---|
| Cynradd | 1,334 | 23% | 17.7% | 1,779 |
| Uwchradd | 1,055 | 17% | 13.6% | 1,521 |

44 Disgwylir i'r boblogaeth gynradd ostwng hyd yn oed ymhellach erbyn 2013 gan greu mwy o leoedd dros ben o'r herwydd. Yn y sector cynradd, disgwylir y bydd gan 40% o ysgolion lai na 50 o ddisgyblion erbyn 2010. Mae gan bron i 31% o ysgolion cynradd gryn dipyn o leoedd dros ben o 25% neu fwy o leoedd heb eu llenwi. Dim ond un o'r pum ysgol uwchradd sydd â 25% o leoedd heb eu llenwi. Fodd bynnag, bydd yn rhaid adolygu'r data hwn ar ôl ail-gyfrifo ffigurau cynhwysedd ysgolion cynradd ac uwchradd gan ddefnyddio fformiwla newydd Llywodraeth Cynulliad Cymru.

45 Fe wnaeth gweithgor trefniadaeth ysgolion Ynys Môn adolygu'r egwyddorion sy'n ymwneud â threfniadaeth ysgolion cynradd yn effeithiol. Fe'i sefydlwyd yn 2005 ac mae'n cynnwys aelodau etholedig, penaethiaid ysgolion cynradd a swyddogion AALl. Cyfarfu saith gwaith ac roedd yn amlwg wedi helpu o ran nodi'r problemau sy'n wynebu'r awdurdod lleol. Ystyriodd y grŵp ystod eang o dystiolaeth a chafodd wybodaeth dda gan yr awdurdod am wahanol ddewisiadau a'r goblygiadau o ran cost. Cyflwynodd y grŵp ei adroddiad ar ad-drefnu ysgolion cynradd i'r awdurdod yn ystod tymor y gwanwyn 2007. Daeth y gweithgor i'r casgliadau nad yw'r sefyllfa gyfredol yn hyfyw yn economaidd.

46 Defnyddiodd yr awdurdod dystiolaeth o adroddiad y gweithgor i baratoi strategaeth tri cham glir i fynd i'r afael â'r lleoedd dros ben mewn ysgolion cynradd. Y dasg gyntaf oedd paratoi dogfen ymgynghori realistig, wedi'i hysgrifennu'n glir, ar yr egwyddorion sy'n ymwneud ag ad-drefnu ysgolion. Cwblhawyd hyn yn effeithiol. Mae'r cyngor wedi defnyddio'r ddogfen ac wedi ymgynghori'n eang ac yn effeithiol â rhanddeiliaid ar egwyddorion ad-drefnu addysg ysgolion cynradd yn Ynys Môn. Comisiynwyd Prifysgol Bangor i gynnal dadansoddiad annibynnol o'r holiaduron. Mae aelodau etholedig wedi cymeradwyo'r broses o baratoi'r cynlluniau ar gyfer ad-drefnu. Bydd yr ail gyfnod yn cynnwys ymgynghoriadau ar ddewisiadau ar gyfer cynlluniau penodol a'r trydydd cam fydd cyhoeddi hysbysiadau statudol os bydd yr awdurdod yn derbyn y cynlluniau hyn.

47 Trwy'r broses ymgynghori, mae cymunedau lleol wedi cael cyfleoedd da i ddylanwadu ar bolisi'r awdurdod ar ad-drefnu ysgolion cynradd. Mae penaethiaid, llywodraethwyr, rhieni, aelodau etholedig a chymunedau yn ymwybodol iawn o'r ffaith nad yw'r patrwm presennol yn ddewis hyfyw. Roedd 85% o atebion i ddogfen ymgynghori'r awdurdod yn cytuno y dylid newid y ffordd yr oedd ysgolion yn cael eu trefnu.

**Rheoli asedau**

48 Er y bu cynnydd sylweddol ers yr arolygiad diwethaf yn 2005, mae cynllun rheoli asedau'r awdurdod yn parhau i fod yn anghyflawn ac nid yw'r awdurdod wedi'i gymeradwyo eto.

49 Serch hynny, mae'r rhan fwyaf o'r wybodaeth sydd ei hangen i gyfrannu'n effeithiol at wneud penderfyniadau am ad-drefnu ysgolion cynradd ar gael erbyn hyn. Mae gan swyddogion wybodaeth fanwl am gyflwr adeiladau ysgolion a chost cywiro unrhyw ddiffygion, a gasglwyd ganddynt yn 2005-2006. Fodd bynnag, ni chaiff y wybodaeth ei diweddaru yn rheolaidd i ystyried y gwaith cynnal a chadw sy'n cael ei gwblhau ym mhob ysgol, ac nid yw felly mor gyfredol ag y dylai fod bob tro. Mae ysgolion wedi llenwi holiaduron yn ddiweddar am addasrwydd eu hadeiladau ar gyfer cyflwyno'r cwricwlwm modern, ond nid yw'r ymatebion hyn wedi cael eu safoni eto i sicrhau bod ysgolion wedi dehongli'r gofynion yn gyson. Bydd data am gynhwysedd yr ysgolion yn cael ei ddiweddaru trwy ddefnyddio'r fformiwla newydd a gyhoeddwyd yn ddiweddar gan Lywodraeth Cynulliad Cymru.

50 Mae ysgolion cynradd mewn cyflwr da ar y cyfan. Fodd bynnag, mae angen adnewyddu tair o'r pum ysgol uwchradd yn sylweddol a chytunwyd mai'r gwaith hwn sy'n cael blaenoriaeth ar gyfer defnyddio dyraniadau o grantiau cyfalaf addysg penodol yn y dyfodol dros y 10 i 15 mlynedd nesaf. Mae'r awdurdod yn amcangyfrif bod angen tua £17 miliwn i gywiro'r ôl-groniad o waith cynnal a chadw. Mae'r

awdurdod wedi mabwysiadu dull pragmatig ar gyfer y dasg o wella hygyrchedd ysgolion i ddisgyblion ag anableddau trwy wneud addasiadau fel sydd angen er mwyn sicrhau bod disgyblion y maent yn gwybod y byddant yn dechrau yn y system yn gallu mynychu'r ysgol a ddewisir gan eu rhieni.

51 Mae swyddi gwag staffio yn yr adran gwasanaethau eiddo wedi cyfrannu at yr oedi wrth gwblhau'r cynllun rheoli asedau ac wrth symud prosiectau adeiladu blaenorol ymlaen. Aethpwyd i'r afael â'r materion hyn, llenwyd y swyddi ac mae strwythur newydd sy'n cynnwys cynhwysedd rheoli prosiectau wedi cael ei gymeradwyo. Ni fu unrhyw lithriant yn y rhaglen cyfalaf addysg yn 2006-2007.

52 Mae'r awdurdod a'i ysgolion yn glir ynglŷn â'u cyfrifoldebau priodol o ran atgyweirio a chynnal a chadw adeiladau ysgol. Mae bron pob ysgol wedi dewis defnyddio gwasanaethau eiddo'r awdurdod i reoli'r rhan fwyaf o'r gwaith ar eu rhan. Yn yr ysgolion hyn, mae'r trefniant hefyd yn galluogi'r awdurdod i arfer ei gyfrifoldeb i fonitro cyflwr ei asedau. Yn achos ysgolion cynradd yn benodol, mae cydgyfrannu eu cyllid atgyweirio a chynnal a chadw dirprwyedig yn galluogi'r awdurdod i flaenoriaethu gwaith ar draws ysgolion yr ynys, a chyfuno cyfalaf a chyllid refeniw yn effeithiol i gynnal ysgolion mewn cyflwr da.

53 Mae ysgolion yn adrodd bod ansawdd y gwasanaeth gan y gwasanaethau eiddo wedi gwella ers yr arolygiad diwethaf. Mae'r cytundeb lefel gwasanaeth sydd wrth wraidd y trefniant hwn yn glir. Fodd bynnag, gan fod y cytundeb pum mlynedd ar fin cael ei adnewyddu, bydd cyfle i gynnwys safonau perfformiad clir er mwyn i ysgolion allu barnu ansawdd y gwasanaeth a gânt, ac egluro rôl cefnogi cleientiaid y swyddogion addysg o fewn y trefniant.

### Derbyniadau i ysgolion

54 Gall disgyblion fynychu'r ysgol o'u dewis. Caiff rhieni wybodaeth glir a manwl am bolisi a threfniadau'r awdurdod. Mae system effeithiol ar waith i ddelio ag apeliadau, sy'n brin iawn. Mae'r bartneriaeth â gwasanaethau cymdeithasol yn effeithiol ar y cyfan o ran derbyniadau. Caiff plant y gofelir amdanynt eu rhoi mewn ysgolion sydd fwyaf addas ar gyfer eu hanghenion. Mae'n briodol bod gweithdrefnau derbyn yn rhoi blaenoriaeth i'r plant hyn. Dim ond 4.8% o'r plant y gofelir amdanynt a newidiodd ysgol fwy nag unwaith yn 2005-2006, sef y gyfran isaf ond un o'r holl awdurdodau yng Nghymru.

55 Mae polisïau derbyn clir ar waith ar gyfer ysgolion arbennig. Caiff disgyblion ag anableddau le mewn ysgol o ddewis eu rhieni, gyda chymorth a chludiant fel sydd angen, yn unol â pholisi'r Cyngor.

56 Ymgynghorir yn briodol ag awdurdodau cyfagos, awdurdodau esgobaethol ac ysgolion ynghylch derbyniadau. O ganlyniad, caiff disgyblion sy'n newydd i'r awdurdod eu rhoi mewn ysgolion addas. Mae darpariaeth arbenigol dda i'r disgyblion hyn gynyddu eu medrau dwyieithog. Mae'r awdurdod yn rhoi ei bolisi dwyieithog ar waith yn effeithiol mewn perthynas â darparu lleoedd ysgol.

57 Mae'r awdurdod lleol yn helpu ysgolion i weithio gyda'i gilydd i osgoi gwaharddiadau parhaol. Gwna hyn trwy oruchwylio'r broses o drosglwyddo disgybl sydd mewn perygl o gael ei wahardd i ysgol arall. Mae pob ysgol wedi cytuno ar brotocol yr

awdurdod lleol ar gyfer ‘symudiadau rheoledig’. Hyd yn hyn, ni fu angen defnyddio’r protocol hwn, er y bu trosglwyddiadau ar sail cytundebau rhwng ysgolion unigol.

58 Ceir ystod dda o gyfleoedd ar gyfer disgyblion ‘sy’n cael eu haddysgu ar wahân i yn yr ysgol’ (EOTAS). Mae rhai disgyblion ar raglenni cwricwlwm amgen yn aros ar gofrestri ysgol. Mae’r Grŵp Cynhwysiad Ysgolion Uwchradd yn cynorthwyo trwy wneud i’r polisi derbyn i raglenni cwricwlwm amgen weithio yn unol ag anghenion disgyblion. Caiff disgyblion sydd wedi’u dadrithio eu nodi’n gynnar erbyn hyn, a rhoddir cymorth priodol iddynt. O ganlyniad, caiff llawer ohonynt eu hintegreiddio’n llawn yn ôl yn yr ysgol.

### Cludiant o’r cartref i’r ysgol

59 Mae gan yr awdurdod bolisi clir ar gludiant o’r cartref i’r ysgol. Mae’r polisi yn y sector cynradd yn fwy hael na’r hyn sy’n ofynnol yn statudol gan ei fod yn darparu cludiant am ddim ar gyfer disgyblion ysgol gynradd o dan wyth oed sy’n byw dros 1.5 milltir o’u hysgol dalgylch ac ar gyfer disgyblion rhwng wyth ac 11 oed.

60 Mae’r awdurdod lleol wedi drafftio cod ymarfer newydd ar gyfer rhieni, disgyblion, ysgolion, contractwyr a gyrwyr sy’n rhoi amlinelliad clir o gyfrifoldebau a disgwyliadau o ran cludiant ysgol.

61 Sefydlwyd panel gorchwyl a gorffen Cludiant Ysgol gan yr awdurdod i fonitro gwelliant yn y maes gwaith hwn. Mae hwn wedi bod yn llwyddiannus wrth sicrhau ffocws aelodau etholedig, swyddogion a sefydliadau partner. O ganlyniad, mae’r awdurdod wedi gwneud cynnydd wrth wella ansawdd a diogelwch cludiant o’r cartref i’r ysgol. Yn ogystal, mae’r awdurdod wedi sicrhau buddsoddiad ychwanegol i gefnogi’r broses o wella contractau’r gwasanaeth cludiant cartref i’r ysgol a fydd yn cael eu hadolygu ar ddechrau 2008.

62 Mae’r awdurdod lleol yn codi £60 y flwyddyn am gludiant i bobl dros 16 oed. Mae’r darparwyr addysg bellach lleol yn effeithiol wrth gasglu’r ffioedd hyn. Fodd bynnag, nid yw’r trefniadau i gasglu’r arian gan ddisgyblion ôl-16 sy’n mynychu ysgolion yr un mor effeithiol gan fod yr incwm a gynhyrchir yn llai nag y dylai fod.

63 Gwnaed cynnydd da i ddod o hyd i ffyrdd o wella’r gwasanaeth cludiant ysgol. Bydd y wybodaeth o’r gwaith hwn yn awr yn llywio trafodaethau contract wrth baratoi ar gyfer ail-dendro’r contract y flwyddyn nesaf. O ganlyniad, mae’r awdurdod mewn sefyllfa dda i ddarparu gwasanaeth gwell ar gyfer cludo dysgwyr i’r ysgol ac oddi yno.

64 Mae ymddygiad gwael disgyblion ar leiafrif bach o lwybrau cludiant cartref-ysgol yn parhau i fod yn her i’r awdurdod lleol. Mae wedi arbrofi â mentrau gwahanol sydd wedi’u hanelu at oresgyn y broblem hon. Mae’r awdurdod lleol wedi arbrofi’n effeithiol â defnyddio camerâu cylch cyfyng ar fysiau. Yn ogystal, mae’r awdurdod lleol wedi ymgynghori â disgyblion am y problemau hyn a bydd yn cynnwys eu hymatebion pan fyddant yn adnewyddu’r contractau cludiant.

65 Mae’r canllawiau clir a ddarperir gan yr awdurdod a’r contractau ysgrifenedig gyda chwmnïau cludiant yn helpu i sicrhau bod cerbydau ac offer perthnasol yn cydymffurfio â deddfwriaeth. Mae’r awdurdod lleol yn monitro prydlondeb cludiant o’r cartref i’r ysgol, ymddygiad ar fysiau ysgol a’u hansawdd. Mae pob gyrrwr tacsi a hebryngwr wedi cael gwiriadau’r Swyddfa Cofnodion Troseddol (SCT) yn ddiweddar.

Mae'r awdurdod lleol yn gweithio gyda phartneriaid ledled Gogledd Cymru ar hyn o bryd i wneud yn siŵr bod pob gyrrwr bws cyhoeddus sy'n gweithio ym maes cludiant o'r cartref i'r ysgol yn cael gwiriad y SCT. Ar hyn o bryd, nid yw'r agwedd hon ar fonitro yn ddigon effeithiol.

**A fydd perfformiad yr awdurdod lleol yn gwella?**

| | |
|---|---|
| **Gradd 2:** | **Mae'r rhagolygon ar gyfer gwella yn dda, heb unrhyw rwystrau pwysig** |

66 Yn dilyn cyfnod o ansefydlogrwydd, mae'r arweinyddiaeth wleidyddol yn yr awdurdod bellach yn fwy sefydlog. Mae'r sefydlogrwydd hwn yn galluogi'r arweinyddiaeth i fod yn gadarn ac yn bendant ar ystod o faterion allweddol, gan gynnwys ad-drefnu ysgolion. Mae hyn yn darparu rhagolygon gwell nag o'r blaen y bydd penderfyniadau'n cael eu gwneud er lles y system addysg gyfan ledled Ynys Môn, yn hytrach nag ar sail ward.

67 Mae gan yr arweinyddiaeth wleidyddol ddealltwriaeth dda o'r materion sy'n wynebu addysg. Mae cyfarfodydd bob deufis rhwng yr arweinydd, deiliaid portffolio, uwch swyddogion a chynrychiolwyr penaethiaid yn cynnig fforwm da i drafod materion addysgol yn drylwyr, fel cyllideb yr awdurdod ar gyfer 2007-2008 ac arbedion effeithlonrwydd mewn ysgolion. Mae canlyniadau'r cyfarfodydd hyn yn llywio'r broses gwneud penderfyniadau ac yn helpu llywio cyfeiriad strategol yr awdurdod.

68 Mae'r rheolwr gyfarwyddwr newydd wedi bod yn ei swydd ers dros chwe mis. Cytunwyd ar newidiadau sylweddol i reoli perfformiad ar lefel gorfforaethol ac mae'r gweithredu wedi dechrau. Mae hefyd wedi newid y strwythur pwyllgorau i gynyddu archwilio perfformiad. Mae hyn yn arwain at gynyddu atebolrwydd ar draws yr awdurdod, a dylai gydag amser hefyd helpu i sicrhau bod y broses o wneud penderfyniadau yn wybodus iawn. At ei gilydd, mae'r newidiadau hyn yn cefnogi'r rhagolygon ar gyfer gwella ac maent yn cael eu gyrru'n effeithiol gan reolwr gyfarwyddwr ac arweinydd yr awdurdod.

69 Ers yr arolygiad yn 2005, gwnaed cynnydd da iawn wrth sicrhau consensws am yr angen i newid. Bu newidiadau sylweddol yn safbwynt ac ymroddiad uwch swyddogion ac aelodau etholedig i fynd i'r afael â phroblem lleoedd heb eu llenwi. Mae'r awdurdod wedi cydnabod yn gyhoeddus nad yw'r sefyllfa gyfredol yn gynaliadwy. Mae arweinydd yr awdurdod ac uwch swyddogion yn cefnogi'r strategaeth yn agored ar gyfer ad-drefnu ysgolion cynradd, gyda chefnogaeth gytûn y cyngor.

70 Mae'r awdurdod wedi cydnabod y ffaith fod angen mwy o swyddogion i ddatblygu a dechrau gweithredu'r strategaeth ad-drefnu ysgolion. Mae uwch swyddog addysg wedi cael ei secondio i reoli'r broses o ad-drefnu ysgolion. Mae'r cynnydd mewn cynhwysedd yn galluogi'r gwaith sydd ei angen i wneud y newidiadau i symud ymlaen. Bydd gweithgor corfforaethol, sy'n cynnwys aelodau a swyddogion o nifer o gyfarwyddiaethau, yn cynnig cymorth a her i unrhyw gynigion. Mae hyn yn dangos bod y cyngor yn ystyried ad-drefnu ysgolion yn flaenoriaeth allweddol.

71 Mae ansawdd y gwasanaeth mynediad wedi gwella ers yr arolygiad diwethaf yn 2005. Mae gan y gwasanaeth y potensial i wella ymhellach, o gofio cynhwysedd

swyddogion ychwanegol. Mae'r canlyniadau o'r gwasanaeth yn arwain at gynnydd mewn cyfleoedd dysgu a gwelliannau yn lles dysgwyr mewn nifer o feysydd. Mae'r rhain yn cynnwys:

- mae'r PFfPPhI bellach yn fwy effeithiol o ran datblygu cyfleoedd gwell i ddysgwyr;
- gostyngiad sylweddol yn niferoedd y gwaharddiadau parhaol a chyfnod penodol;
- cyfleoedd dysgu gwell ar gyfer dysgwyr ysgol a'r rheiny nad ydynt yn yr ysgol;
- mae'r gyllideb anghenion dysgu ychwanegol yn awr yn cael ei rheoli'n dda ac mae adnoddau'n cael eu defnyddio'n fwy effeithiol;
- mae'r gwasanaeth ar gyfer mynd i'r afael ag atgyweirio a chynnal a chadw adeiladau ysgol wedi gwella'n sylweddol; ac
- mae'r awdurdod mewn sefyllfa well i ddarparu gwasanaeth gwell ar gyfer cludo dysgwyr i'r ysgol ac oddi yno.

## Ymateb yr awdurdod i ganfyddiadau'r adroddiad

Mae'r Awdurdod Addysg Lleol yn derbyn ac yn croesawu canfyddiadau'r adroddiad hwn ac yn gwerthfawrogi'r modd trylwyr a phroffesiynol y gwnaeth y Tîm Arolygu fesur ac arfarnu'r perfformiad a'r safonau yn yr agweddau ar y gwasanaeth a arolygwyd.

Mae'r awdurdod yn falch bod yr adroddiad, ar y cyfan, yn cydnabod y cynnydd a wnaed ers yr arolygiad blaenorol, yn y meysydd dan sylw, a'i fod yn cadarnhau ein bod ni, fel awdurdod, yn mynd i'r afael o ddifrif â'r materion allweddol er mwyn sicrhau llwyddiant.

Rydym yn derbyn yr argymhellion a wnaed gan y Tîm Arolygu ac yn bwriadu llunio Cynllun Ôl-Arolygiad cadarn ac effeithiol, i ymateb iddynt a'u rhoi ar waith, a bydd hyn hefyd yn hyrwyddo ymhellach y broses o ddatblygu'r cynlluniau strategol sydd gan yr awdurdod i sefydlu system ysgolion fwy effeithiol ac effeithlon yn Ynys Môn ar gyfer y dyfodol.

## Atodiad 1

**Y proffil graddau**

| Barn allweddol | Mynediad a threfniadaeth ysgolion |
|---|---|
| **Pa mor dda yw perfformiad yr awdurdod?** | 3 |
| **A fydd perfformiad yr awdurdod yn gwella?** | 2 |

| Cwestiwn allweddol | Mynediad a threfniadaeth ysgolion |
|---|---|
| **1 Pa mor effeithiol yw cynllunio strategol yr awdurdod?** | 3 |
| **2 Pa mor effeithiol yw gwasanaethau'r awdurdod?** | 3 |
| **3 Pa mor effeithiol yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?** | 2 |
| **4 Pa mor dda y mae arweinwyr a rheolwyr yn monitro, yn arfarnu ac yn gwella gwasanaethau?** | 3 |

# Atodiad 2

**Y tîm arolygu**

| | | |
|---|---|---|
| Arwyn Thomas AEM | Estyn | Arolygydd Cofnodol |
| Betsan O'Connor AEM | Estyn | Arolygydd Tîm |
| Susan Roberts AEM | Estyn | Arolygydd Tîm |
| Terry Williams AY | Estyn | Arolygydd Tîm |
| Huw Lloyd Jones | Swyddfa Archwilio Cymru | Arolygydd Tîm |
| Geraint Ellis | Ynys Môn | Enwebai |